**Dr Chris Llewelyn**
Prif Weithredwr / Chief Executive

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
**Welsh Local Government Association**

**Un Rhodfa'r Gamlas**
Heol Dumballs
Caerdydd
CF10 5BF
**Ffôn:** 029 2046 8600

**One Canal Parade**
Dumballs Road
Cardiff
CF10 5BF
**Tel:** 029 2046 8600

Ein Cyf / Our Ref:

Dyddiad / Date: 25 Auguust 2023

Gofynnwch am / Please ask for: Karen Higgins

Llinell uniongyrchol / Direct line:

Ebost / Email: workforce@wlga.gov.uk

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1SN

Annwyl Jenny

**Ymchwiliad i ddull iechyd cyhoeddus i atal trais yn seiliedig ar ryw**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Awst 2023 a'r cyfle i gyfrannu tuag at yr ymchwiliad uchod a gyflawnir gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. Rwy'n falch o gynnig ymateb ar ran llywodraeth leol i'ch cwestiwn penodol ar sut mae sefydliadau yn delio â honiadau o drais yn seiliedig ar ryw yn fewnol ac yn fwy penodol pa weithdrefnau sydd mewn lle i ddelio â honiadau o drais yn seiliedig ar ryw a godir gan neu yn erbyn gweithwyr.

Mae cyflogwyr Llywodraeth Leol yng Nghymru wedi ymrwymo i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn y gweithle ac mae cynghorau yn weithredol wrth godi ymwybyddiaeth ymysg rheolwyr a staff cam-drin domestig, trais gan gynnwys trais yn seiliedig ar ryw a thrais rhywiol, gyda pholisïau a gweithdrefnau penodol mewn lle i reoli ac ymateb i faterion o'r natur hwn a godwyd gan neu yn erbyn gweithwyr. Mae polisïau cam-drin domestig, trais a thrais rhywiol yn bodoli ac yn aml wedi'u tanategu gan ganllawiau, cefnogaeth a hyfforddiant lle bo'n briodol, sydd oll yn unol â gofynion Deddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.
Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language. Use of either language will not lead to a delay.

wlga.cymru

wlga.wales

@WelshLGA

Er mwyn dangos graddfa a natur y polisïau hyn, mae enghraifft penodol o Gyngor Caerdydd wedi'i ddarparu ac wedi'i atodi i'r llythyr hwn.

Yn dibynnu ar amgylchiadau unrhyw achos unigol, mae gan gyflogwyr llywodraeth leol nifer o bolisïau a gweithdrefnau eraill a all fod yn berthnasol ac y gellir eu defnyddio wrth reoli materion o gam-drin domestig, trais a thrais rhywiol, gan gynnwys delio â honiadau a godir gan neu yn erbyn gweithwyr, sy'n cynnwys:

- Camddefnyddio Alcohol a Sylweddau
- Rheoli Presenoldeb
- Cod Ymddygiad
- Urddas yn y Gwaith
- Disgyblu
- Cwynion
- Diogelu
- Cydraddoldeb Traws
- Rhannu pryderon

Yn fwy eang, mae materion a dulliau i fynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â thrais a cham-drin domestig yn aml yn destun trafodaeth ymysg rhwydweithiau a phartneriaethau proffesiynol yn llywodraeth leol, gyda'n hundebau llafur, Llywodraeth Cymru ac ar draws y gwasanaethau cyhoeddus. Mae partneriaid yn rhannu gwybodaeth ac arferion ac yn parhau i archwilio a mynd i'r afael â'r ffordd y gall ein gweithlu a gweithleoedd gael eu cefnogi a'u diogelu ymhellach drwy bolisïau a chefnogaeth. Un enghraifft o'r fath yw Cyngor Cyswllt Cymru, partneriaeth gymdeithasol rhwng cyflogwyr llywodraeth leol ac undebau llafur, sydd wedi trafod yn rheolaidd ac wedi cyhoeddi datganiad ar y cyd i godi ymwybyddiaeth o a dangos ymrwymiad i fynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais (ynghlwm). Yn fwy diweddar, yn Ebrill 2023 gwahoddodd Cyngor Cyswllt Cymru, TUC Cymru i rannu manylion eu Pecyn Gwaith Aflonyddu Rhywiol. Mae trafodaeth reolaidd a rhannu gwybodaeth ymysg gweithwyr proffesiynol a phartneriaid yn cynnal proffil y mater pwysig hwn, er mwyn adnewyddu ein dealltwriaeth a dulliau.

Gobeithiaf fod hyn yn bodloni eich cais am wybodaeth a bod yr enghraifft a ddarperir yn cynnig y manylion angenrheidiol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau penodol, gan gynnwys y canllawiau a chefnogaeth sydd ar gael. Fodd bynnag, mae croeso i chi gysylltu â mi os ydych angen mwy o fanylion neu'n dymuno trafod unrhyw un o'r pwyntiau a godwyd.

Yn ddiffuant,

Chris Llewelyn
Y Prif Weithredwr